

Côd a theitl y modiwl: ECAD6007-C: Y Dysgwr - pwy ydw i'n ei addysgu?

Teitl yr aseiniad: *Gwerthusiad beirniadol sy'n nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth achos o ddysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar astudiaeth achos critigol a arsylwyd.*

Rhif myfyriwr: 1304488

Dyddiad cyflwyno'r aseiniad: 29ain Hydref 2019

Cynnwys

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Arsylwi**
- 3. Methodoleg**
- 4. Y Pedwar Diben**
- 5. Adolygiad Llenyddiaeth**
- 6. Adfyfyrio/Gwerthuso a'r camau nesaf**
- 7. Casgliad**
- 8. Llyfryddiaeth**
- 9. Atodiadau**

1. Cyflwyniad

Bwriadaf, yn y traethawd hwn, fynd ati i ddisgrifio a dadansoddi un achos critigol a arsylwyd gennyf. Trafodaf y fethodoleg arsylwi yn ogystal â chymhwyso'r achos critigol tuag at Bedwar Diben y Cwricwlwm. Lluniai adolygiad llenyddiaeth eang ar gyfer y meysydd addysg sydd yn cwmpasu'r achos critigol. Byddaf wedyn yn gwerthuso'r achos critigol ac yn cynnig camau addysgu a dysgu pellach gan gyfeirio at lenyddiaeth, cyn mynd ati i lunio fy nghasgliad terfynol.

Yn atodol i'r traethawd, cynhwysaf ffurflenni arsylwi gwers a lenwyd gennyf ynghyd â ffurflenni 'Beirniad wedi Adfyfrio' (BWA).

Gellir cyfieithu 'critical incident' gan ddefnyddio'r termau 'achos' neu 'ddigwyddiad critigol', ond yn y traethawd hwn, defnyddiaf y term 'achos critigol'.

Cynigiaf ddiffiniadau gan ysgolheigion ynghylch beth yw astudiaeth achos ac achos critigol. Cyfeiria Cohen, Manion et al (2011:289) at ddiffiniad Adelman (1980) sydd yn cynnig mai "the study of an instance in action" ydyw astudiaeth achos. Wrth gynnig diffiniad ar gyfer achos critigol, cyfeiriaf at Tripp a ddywed "a critical incident is an interpretation of the significance of an event" (2011: 8). Cyfeiriaf hefyd at Wragg (1994:64) sy'n cynnig bod 'achos critigol' yn peri mwy o ddiddordeb i arsylwr nag achosion eraill ac eu bônt yn gwarantu mwy o sylw a manylder.

2. Arsylwi

Yn unol â chanllaw rhif 40 yn nogfen BERA (2018) ynghylch cyfrinachedd, ymdrinnir â chyfranogwyr yn ddi-enw yn yr adran hon ac o fewn adrannau eraill y traethawd. Defnyddiaf 'Ysgol X' er mwyn cyfeirio at yr ysgol leoliad, a 'Disgybl A' er mwyn cyfeirio at y disgybl dan sylw ar gyfer fy achos critigol.

Daw'r wybodaeth ganlynol o wefan 'Fy Ysgol Leol', ac mae'r wybodaeth yn gywir oddi ar 2018. Ysgol ddwyieithog ydyw Ysgol X, gyda 1,466 o ddisgyblion yn ei mynychu. Gosodwyd yr ysgol yng nghategori cefnogaeth 'Melyn' yn dilyn adolygiad ddiweddaraf Estyn. Mae gan yr ysgol ganran prydau ysgol am ddim o 19.3%, a chanran presenoldeb o 94% ar hyd y flwyddyn ar gyfartaledd. (Fy Ysgol Leol, 2018).

Yn ystod fy nghyfnod yn Ysgol X, bûm yn arsylwi ystod o ddosbarthiadau Cyfnod Allweddol 3. Yn y traethawd hwn, manylaf ar ddosbarth ym flwyddyn 8 â nifer o ddisgyblion gallu uchel yn eu plith. Mae yna 30 o ddisgyblion yn y dosbarth hwn, sef 8 Gwyrdd (y band uchaf yng ngweithdrefn setio Ysgol X). O'r dosbarth hwn, penderfynais ganolbwyntio ar ymddygiad 'Disgybl A' yn benodol. Af ati yng nghorff y traethawd hwn i ddisgrifio a dadansoddi ymddygiad y disgybl yma ar gyfer fy achos critigol.

3. Methodoleg

Fy mwriad yn yr adran hon yw mynd ati i nodi'r dechneg arsylwi a ddefnyddiwyd gennyf gan drafod cryfderau a gwendidau'r dull penodol hwnnw. Yn ogystal â hwnnw, trafodaf gryfderau a gwendidau dwy dechneg arsylwi arall y gellid bod wedi'u defnyddio.

Gellir rhannu dulliau arsylwi i ddau gategori: arsylwi cyfranogol ac arsylwi anghyfranogol. Gellir diffinio'r dechneg arsylwi anghyfranogol (*non-participant observation*) fel y modd y mae unigolyn yn arsylwi trwy wyllo dosbarth, sydd yn hysbys o bresenoldeb yr arsylwr, ond nid yw'r arsylwr yn cymryd rôl weithredol o fewn y wers. (Gweler [encyclopedia.com](https://en.wikipedia.org/wiki/Participant_observation), 2019). Yn wahanol i'r dechneg arsylwi uchod, gellir diffinio techneg arsylwi cyfranogol (*participant observation technique*), yn y modd y mae'r arsylwr yn ymwneud yn fwy ar lefel uniongyrchol gyda'r disgyblion. Gellir amlinellu ymhellach wrth ystyried saith elfen sylfaenol yn ôl Jorgensen, ond yn gyffredinol mae'r dull hwn yn creu gwirion ymarferol a damcaniaethol ynghylch bywyd unigolion wedi'u seilio ymhlith bywyd dyddiol go iawn (1989:13, 14).

Yn fy nghyfnod arsylwi i, ffafiais y dull arsylwi anghyfranogol. Mantais defnyddio'r dechneg hon oedd yr oeddwn yn medru eistedd yng nghefn y dosbarth gan ganolbwyntio ar fy arsylwi a llunio nodiadau cyson ar yr hyn a welwyd gennyf. Medrais arsylwi amrywiaeth o elfennau gan ddefnyddio'r dechneg hon, gan gynnwys: 1) sut oedd y disgyblion yn ymddwyn ac yn cyfathrebu? 2) sut oedd yr athrawon yn cyfathrebu ac yn rheoli dosbarthiadau? a 3) pa mor effeithiol oedd yr amgylchedd ym mhob dosbarth?

Ar y llaw arall, mae effaith 'Hawthorne' yn medru peri anfantais i'r dechneg hon. Gellir diffinio effaith 'Hawthorne' gan nodi newid mewn ymddygiad person oherwydd eu bônt yn ymwybodol y maent yn cael ei arsylwi. (Gweler [sociologydictionary.org](https://www.sociologydictionary.org/)). Yn ogystal â hynny, gall y dechneg hon wedi peri i'r arsylwi fod ychydig yn arwynebol oherwydd nid oeddwn wedi cyfrannu at yr addysgu neu ymwneud yn helaeth gyda'r disgyblion yn uniongyrchol yn ystod y wers.

Wrth ystyried fy achos critigol, gallaf fod wedi defnyddio sosiogramau er mwyn tracio sut yr oedd y disgybl yn cyfathrebu ac yn ymwneud â chyd-ddisgyblion yn ystod y wers. Trafodir manteision ac anfanteision sosiogramau gan Papatheodorou et al (2013: 32). Dywedant fod sosiogram yn effeithiol oherwydd ei bod yn gofnod strwythuredig o gyfathrebu a all dynnu sylw at berthnasau a deinameg cymdeithasol o fewn grŵp penodol. O ran anfanteision sosiogram, maent yn cydnabod ei bod ond yn cynnig gwybodaeth gyfyngedig a'i bod yn ddull annibynadwy oherwydd y mae patrymau cyfathrebu plentyn yn medru amrywio o ddydd

i ddydd. Gellir dadlau eto bod effaith 'Hawthorne' yn medru dylanwadu ar ymddygiad plentyn gan arwain at gyflwyno canlyniadau ffals o fewn y sosiogram.

Dull arsylwi arall a drafodir gan Papatheodorou et al (2013: 36) yw recordio gweledol a chlywedol. Gan ddefnyddio dyfais e.e. ffôn symudol, gallaf wedi recordio clipiau sain o drafodaethau'r disgyblion a'r ffyrdd yr oeddent yn rhyng-gyfathrebu yn ystod y wers. Mantais o ddefnyddio'r dull cyfoes yma yw y bydd canlyniadau'n fanwl ac yn benodol o fewn y cyd-destun recordio. Cynigia'r dull yma fanteision ar ôl y cyfnod arsylwi o ran rhwyddineb yr arsylwr i rannu'r canfyddiadau gydag eraill a'u dadansoddi. Un anfantais a ymddengys yn gyson wrth drafod y dulliau yma ydyw effaith 'Hawthorne' ac y mae'r un peth yn wir wrth recordio clipiau sain. Rhaid crybwyll y gall ymddygiad y plentyn wella neu waethygu wrth gael ei arsylwi, ond daliant i roi canlyniadau ffals. Ceir perygl hefyd o ran moeseg a phroblemau technolegol a all fod yn faen tramgwydd wrth recordio a rhannu'r hyn a arsylwyd.

4. Y Pedwar Diben

Yn yr adran hon, byddaf yn mynd i fwy o fanylder ynghylch fy achos critigol gan ei gysylltu ag o leiaf un o bedwar diben y cwricwlwm newydd a argymhellwyd gan Yr Athro Graham Donaldson yn ei arolwg. Bydd y pedwar diben yma'n cynnig y man cychwyn ar gyfer y cynnwys a'r profiadau a ddatblygir fel rhan o'r cwricwlwm. (Llywodraeth Cymru, 2015: 8) Trafodir y dibenion ym mhennod 3 o fewn y ddogfen *Dyfodol Llwyddiannus* a cheir tudalen o grynodedb ar ddiwedd y bennod (2015: 31).

Fel y crybwyllais ar ddiwedd yr adran 'Arsylwi', daw fy achos critigol o ddosbarth gallu uchel ym mlwyddyn 8 (gweler manylion am y wers yn 'Atodiad 1.1'). Roedd 'Disgybl A' yn tarfu llawer ar rediad y wers, ac nid oedd yn dangos llawer o sylw neu awch wrth gyflawni tasgau a osodwyd gan yr athrawes. Ar fwy nag un achlysur, ymddangosodd 'Disgybl A' nad oedd ganddo lawer o ddiddordeb ym mhwc y wers wrth iddo barhau i dynnu ei dei a thynnu sylw ei gyd-ddisgyblion droeon yn ystod yr awr. Roedd yn siaradus iawn, ac yn mynnu cyfathrebu gyda'r athrawes a'i gyd-ddisgyblion trwy gyfrwng y Saesneg mewn gwers cyfrwng Cymraeg. Roedd yn mynnu trafod pynciau nad oedd yn berthnasol i bwnc y wers, ond roeddent yn bynciau academiaidd iawn a oedd yn dangos gallu a diddordebau tu hwnt i'w grŵp oedran yn fy marn i megis materion gwleidyddol byd-eang cyfoes.

Wrth adfyfrio ar yr hyn a arsylwyd gennyf, gellir cysylltu fy achos critigol gydag elfennau yn nau o'r pedwar diben yn fy marn i, sef bod 'Disgybl A' yn ddysgwr uchelgeisiol, galluog ac yn ddinesydd egwyddorol, gwybodus.

O ran bod yn ddysgwr uchelgeisiol, galluog, cefais yr argraff fod 'Disgybl A' wedi datblygu corff eang o wybodaeth yn y meysydd sydd o ddiddordeb iddo ac yr oedd yn trosglwyddo elfennau o'r wybodaeth hynny yn y wers. Roedd hefyd yn ymholgar trwy'r wers, er teimlaf fod yr ymholi wedi tarfu ar allu'r disgyblion eraill i ddilyn llif y wers wrth i'r athrawes ddelio ag ef.

Dangosodd 'Disgybl A' ei fod yn ddinesydd egwyddorol, gwybodus yn y modd yr oedd yn trafod materion cyfoes ar sail y wybodaeth y mae'n meddu arni gan arddangos ei werthoedd yn glir. Yn yr un modd, dangosodd ei fod yn wybodus am ei gymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol wrth iddo olrhain ei wybodaeth gan gyflwyno barn clir. Yn fy marn i, teimlaf i'r athrawes ddelio'n dda gyda 'Disgybl A' wrth iddi gydnabod ei ddadleuon cyn ceisio defnyddio'i awch am ddadl i'w arwain yn ôl at gyflawni'r dasg a osodwyd ganddi.

5. Adolygiad Llenyddiaeth

Fy nod yn yr adran hon yw mynd ati i ymchwilio i, ac adolygu'r, llenyddiaeth a gyhoeddwyd mewn amryw feysydd o amgylch fy achos critigol. Yn ogystal â hynny, byddaf yn mynd ati i gymharu'r llenyddiaeth er mwyn canfod os oes yna gydberthyniad neu wrthdaro rhwng y ffynonellau a drafodir gennyf. Dewisais ymchwilio i ddau brif faes ymchwil sef, yn gyntaf, addysgu disgyblion mwy abl a thalentog, ac yn ail, rheoli ymddygiad o fewn yr ystafell ddosbarth.

Maes Ymchwil 1: Mwy abl a thalentog (MATH)

Gwelir yn Atodiad 1.1. fy mod o'r farn y mae 'Disgybl A' yn ddisgybl mwy abl a thalentog (MATH). Yn ystod gweddill yr adran hon, defnyddiaf yr acronym 'MATH' er mwyn cynrychioli'r term. Fy mwriad cyntaf yw archwilio sut mae diffinio disgyblion 'MATH', a sut mae adnabod rhinweddau'r disgyblion sydd yn cwmpo i'r grwpiau hynny.

Cynigia George yn *The Challenge of the Able Child* (1992: 16) ddiffiniadau gwahanol ar gyfer 'abl' a 'talentog'. Noda fod disgyblion 'abl' yn arddangos perfformiad uwchraddol mewn nifer o feysydd gorchwyl, tra bo disgyblion 'talentog' yn arddangos perfformiad uwchraddol mewn un faes gorchwyl. Er hynny, sonia Clark & Callow yn *Educating Able Children: Resource Issues and Processes for Teachers* (1998: 1) ei bod yn bwysig nodi bod yna rai disgyblion MATH yn medru tangyflawni ac nid ydynt o reidrwydd yn abl ym mhob pwnc. Gallent hefyd arddangos doniau sydd yn hafal, neu'n waeth ar adegau, na'u cyd-disgyblion.

O ran y broses o adnabod disgyblion MATH, mae Clark & Callow (1998: 10) yn cynnig rhestr wirio cyffredinol o nodweddion posib. Soniant hefyd y gellir hidlo'r rhestr gyffredinol a'u trosglwyddo mewn manylder i bwnc/pynciau penodol. Cyniga George (1992: 27) y gellir rhannu dulliau adnabod i dri prif faes, sef: gwerthfawrogiad athrawon, graddfeydd mesur a phroffion safonol mewn gwahanol feysydd.

Fy ail fwriad yn yr adran hon yw archwilio strategaethau y gellid eu gweithredu er mwyn cefnogi a chyfoethogi'r addysgu ar gyfer disgyblion MATH.

Yn Clark & Callow (1998: 96-100), trafodir y broses o gynllunio ar gyfer gwahaniaethu a'r ffyrdd ymarferol o wneud hynny yn yr ystafell ddosbarth. Un ddull ymarferol o wahaniaethu a nodir yw ategu meddwl uwch (*higher order thinking*) ac wrth nodi hyn maent yn cydnabod gwaith Bloom yn y maes yma. Mae'r dull yma'n cael ei dderbyn yn gyffredinol oherwydd y mae'n ymestyn ac yn herio disgyblion MATH. Awgrymant hefyd y

dylai athrawon wirio os ydyw'r strategaeth meddwl uwch yn cael ei chynnwys a'i gweithredu yn eu cynlluniau gwers.

Mae dogfen ACCAC, *Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad*, (2003: 30-35) yn nodi'n glir y chwech elfen yn nhacsonomeg Bloom, sef:

- Cofio
- Dealltwriaeth
- Cymhwyso
- Dadansoddi
- Synthesis
- Gwerthuso

Maent yn mynd i gryn fanylder gan drafod pob elfen yn eu tro gan gynnig argymhellion ar sut i ddefnyddio'r elfennau. Mae'r ddogfen hefyd yn darparu enghreifftiau o sut y gall yr elfennau gael ei gweithredu yng nghyd-destun gwers (34-35: Ffigyrau 6 a 7). Trafoda George (1992: 77) bod dysgu i feddwl yn greadigol ac yn gritigol yn medru mynd law yn llaw gyda thacsonomeg Bloom.

Yn ychwanegol i dacsonomeg Bloom, cyfeiria ddogfen ACCAC at gysyniad yr 'Olwyn TASC' (2003: 39 – Ffigwr 8). Acronym ydyw 'TASC' ar gyfer 'Thinking Activity in a Social Context' a gyfieithwyd ganddynt i 'Meddwl yn Weithredol mewn Cyd-destun Cymdeithasol'. Ceir wyth elfen i'r model hwn, sef:

- Casglu/Trefnu
- Nodi
- Cynhyrchu
- Penderfynu
- Gweithredu
- Gwerthuso
- Cyfathrebu
- Dysgu o brofiad

Mae'r model hwn yn cyflwyno'r elfen o brofiad i'r disgyblion o fewn cyd-destun penodol sydd yn medru cael eu cynnwys mewn cynlluniau gwers athrawon. Yn Ffigwr 9 yn y ddogfen (2003: 40), ceir tystiolaeth bod amcanion dysgu yn medru cael eu nodi'n glir wrth ddefnyddio'r model yma wrth gynllunio.

Trafodir cynllunio ar raddfa ddosbarth yn Clark & Callow (1998: 95-96) a chyfeiriant at fodel Spillman (1991) sy'n nodi pedwar dull gwahanol o weithredu tasg wahaniaethol a gynlluniwyd. Cyfeiriaf at y model (Ffigwr 8.2) wrth esbonio'r pedwar dull:

- Dull 1: tasg gyffredin – pawb yn cyflawni'r un dasg
- Dull 2: dull amrywiol – y dosbarth yn dechrau gyda'i gilydd cyn gwahanu i grwpiau penodol a fydd yn cyflawni'r dasg mewn ffyrdd gwahanol
- Dull 3: symbyliadau amrywiol – disgyblion yn dechrau ar wahân cyn dod at ei gilydd cyn arwahanu eto erbyn diwedd y dasg
- Dull 4: tasgau gwahanol ar gyfer grwpiau gwahanol

Ânt yn eu blaenau i nodi bod tasgau nad ydynt o reidrwydd yn cynnwys darllen ac ysgrifennu a thasgau gyda diweddsglo agored yn medru bod yn effeithiol iawn, yn enwedig i ddisgyblion MATH. Byddai cynllunio bod y disgyblion yn creu'r tasgau eu hun o fudd pellach i ddisgyblion MATH, ac i'r disgyblion eraill mewn dosbarth.

Crybwyllir 'mentora' fel dull effeithiol o feithrin a chefnogi disgyblion MATH gan y tri ffynhonnell. Nodwyd yn nogfen ACCAC (2003: 46) fod mentoriaid yn medru cynnig elfen o ddoethineb ac arbenigedd, yn ogystal â chyfleoedd i gyfnewid syniadau, hyfforddiant a chefnogaeth. Cyniga George (1992: 85) senario posib lle mae oedolyn yn y gymuned â'r disgybl yn cyfarfod yn rheolaidd dros gyfnod penodol o amser. Mae George yn cydnabod bod angen ymrwymiad ar ran y ddwy garfan i gynllunio dilyniant manwl o weithgareddau i gyrraedd nod penodol yn y pendraw. Mae defnyddio tiwtoriaid arbenigol er lles disgyblion MATH yn cael sylw gan Clark & Callow (1998: 98) oherwydd nid yw athro'n medru canolbwyntio'i addysgu tuag at un ddisgybl neu grŵp penodol o ddisgyblion. Cynigiant hefyd y rôl y gall dosbarthiadau arbenigol (*masterclasses*) eu chwarae yn niddordeb y disgyblion MATH oherwydd eu bônt wedi eu fframio o amgylch prif ddiddordebau'r disgyblion.

Maes Ymchwil 2: Rheoli ymddygiad yn y dosbarth

Ar gyfer y maes ymchwil hwn, trof fy sylw oddi ar sefyllfa 'Disgybl A' tuag at yr athrawes ddosbarth a'r ffyrdd effeithiol o reoli ymddygiad disgyblion o fewn yr amgylchedd ddosbarth. Fy mwriad o fewn yr is-adran hon fydd i amlinellu a thrafod nodweddion elfennol o reolaeth ddosbarth effeithiol.

Mae Rogers (gol). *Teacher Leadership and Behaviour Management* (2002: 21) yn cydnabod Driekurs (1982) wrth drafod nodweddion athrawon 'awtocratig' a 'democratig' a pha mor annerbyniol y mae awtocratiaeth o fewn amgylchedd addysgu cyfoes wrth ystyried hawliau a theimladau plant. 'Combine kindness with firmness' ydyw chwedl Driekurs. Mae'r

cysyniad yma'n cyfuno'r dulliau awtocratig (y bos) a democratig (yr arweinydd) o addysgu gan greu ffigwr a ellir ei alw'n 'rheolwr'. Mae Rogers (2002:32) yn rhestru nodweddion o addysgu cryf wrth ddefnyddio dull 'rheolwr'. Dyma'r nodweddion:

- sicrhau bod y disgybl yn canolbwyntio, gan ddangos cyswllt llygaid os oes modd
- defnyddio techneg 'codi aeliau' ynghyd â golwg ddisgwyliedig
- siarad gyda thraw cyson sydd yn codi ar ddiwedd unrhyw gyfarwyddyd
- defnyddio 'diolch' yn hytrach nag 'os gwelwch yn dda'
- sefyll yn stond

I athrawon, un o nodweddion pwysicaf rheolaeth ddosbarth effeithiol yw datblygu perthynas da gyda disgyblion. Mae Loeser yn *The processes of classroom management* (2014: 2) yn cydnabod geiriau Holliday (2005) wrth drafod y nodwedd yma. Dywed fod Holliday yn pwysleisio'r angen i athrawon ddatblygu perthynas ddynol gyda phob disgybl yn gyntaf os ydynt am reoli dosbarth yn effeithiol.

6. Adfyfyrio/Gwerthuso a'r camau nesaf

Fy mwriad yn yr adran hon yw adfyfyrio ar yr achos critigol gan fynd ati i awgrymu'r camau nesaf a allai gael eu gweithredu o fewn yr ystafell ddosbarth yn y dyfodol. Cyfeiriai yn yr adran hon at 'Atodiad 1.2.', sef ffurflen adfyfyrio'n feirniadol, sydd yn cynnig fy marn fy hun ynghylch y camau nesaf. Byddaf hefyd yn cynnig sut y gall hyn gael effaith ar fy natblygiad personol a phroffesiynol fy hun i'r dyfodol.

Yn fy marn i, mae gan adfyfyrio beirniadol rôl bwysig yn natblygiad proffesiynol athrawon. Credaf hyn oherwydd y mae'n cynnig sgôp i athrawon hunan-asesu eu dulliau addysgu a'u haddasu os oes angen. Mae Tricia Smith (2014: 79) yn cydnabod gwaith Taole (2012) wrth drafod addysgu adfyfyriol gan nodi y mae cymhlethdod addysgu yn ei gwneud yn ddisgwyliedig i athrawon gwestiynu eu hymarferion ar gyfer eu datblygiad proffesiynol er mwyn gwella perfformiad eu dysgwyr. Hoffaf y model BWA a ddilynwyd gennyf wrth fyfyrio ar fy achos critigol, rhannwyd yr addysgu i wahanol gategoriâu sydd yn sicrhau eglurder wrth adfyfyrio ac yr oeddwn yn medru nodi camau gweithredu clir ar gyfer y dyfodol. Wrth ystyried fy natblygiad personol i, byddwn yn sicr yn parhau i ddilyn model tebyg er mwyn adfyfyrio ar fy addysgu yn y dyfodol.

Crybwyllaf y syniad a gynigir gan Clark & Callow (1998: 96) yn 'Atodiad 1.2.', a theimlaf y gallai gyflwyno'r syniad yma o fewn yr ystafell ddosbarth gael effaith gadarnhaol nid yn unig ar 'Ddisgybl A' ond ar y disgyblion eraill hefyd. Credaf fod y dull hwn o addysgu'n cynnig elfen ddyfnach o ran trosglwyddo mwy o gyfrifoldeb oddi ar yr athro tuag at ddisgyblion. O ran 'Disgybl A', teimlaf y gallai'r dull fod yn hynod effeithiol trwy gynnig rôl gweithredol iddo o fewn y dosbarth. O ran fy natblygiad fy hun, rwyf yn hoff iawn o'r dull yma oherwydd credaf y gall athrawon ddysgu oddi wrth eu disgyblion yn gyson, ac mae'n medru bod yn ffordd o wella'r addysgu a'r berthynas athro-disgybl oherwydd y mae'r athro'n medru adnabod y dulliau addysgu a dysgu y mae'r disgyblion yn ffafrio.

Cyfeiriai hefyd yn 'Atodiad 1.2.' at fentora fel dull effeithiol arall ar gyfer cyfoethogi ac ymestyn yr addysgu ar gyfer 'Disgybl A'. Trafodwyd mentora wrth drafod yr ymchwil sydd i ddisgyblion MATH yn adran 5 o'r traethawd hwn, a chynigiais fod y tair ffynhonnell i gyd yn gytûn ynghylch effeithiolrwydd y dull yma. Cefnogaf y dull yma oherwydd teimlaf y gall defnyddio mentor sydd â diddordebau tebyg i 'Ddisgybl A' cyflwyno gwedd newydd i'r pwnc iddo. Teimlaf y gall yn sicr ymestyn gallu 'Disgybl A' gan roi cyfle penodol iddo arddangos hynny yng nghwmni'r mentor. O ran oedran 'Disgybl A', credaf y byddai darparu disgybl hŷn o'r ysgol yn fwy effeithiol wrth gadw'r disgybl o fewn yr amgylchedd ysgol. Wrth gymhwyso'r dull hwn i'm datblygiad proffesiynol fy hun, fel un sydd wedi cael profiad o fentora disgyblion iau tra'r oeddwn yn yr ysgol uwchradd, teimlaf y gall hyn fod yn arf effeithiol pan fyddaf yn

addysgu oherwydd gall dynnu ychydig o bwysau oddi ar fy ysgwyddau fel athro, ond hefyd gall gyflwyno safbwynt a llais newydd y mentor gynnig rhywbeth imi os ydyw'n elfen nad wyf yn gryf iawn ynddi. Rwyf yn cydnabod George (1992: 85) gan fydd y dull yn gofyn am gynllunio ac ymrwymiad cyson oddi wrth y ddau garfan.

Cytunaf mai arweinyddiaeth ddemocratig yw'r ffordd mwyaf effeithiol o addysgu o fewn addysg gyfoes, ac mae perthnasau agos sydd yn gweithio'n ddwy-ffordd yn amhrisiadwy er mwyn datblygu addysgeg effeithiol a dysgu proffesiynol wrth gyfeirio at ddau o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru: 2018). Wrth gofio'n fy ôl i'r cyfnod arsylwi, canmolaf ymdrechion yr athrawes wrth ymdrin â 'Disgybl A' mewn modd ddemocratig gan ddangos parch ato wrth geisio'i annog yn ôl at y dasg a osodwyd wedi iddo darfu droeon yn flaenorol. Ystyriaf nodweddion 'rheolwr' Rogers (2002: 32) gan eu cymhwyso tuag at fy natblygiad proffesiynol fy hun. Teimlaf fy mod yn gwneud defnydd o'r nodweddion hyn o fewn fy nulliau addysgu a'u bônt yn effeithiol iawn wrth reoli dosbarth a disgyblaeth.

7. Casgliadau

Yn yr adran hon, byddaf yn crynhoi ac yn asesu'r dull arsylwi a ddefnyddiais. Byddaf hefyd yn trafod y Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. I gloi, byddaf yn ategu'r hyn a drafodwyd gennyf yn ystod y traethawd.

Wrth fyfyrion fy ôl ar y dull arsylwi anghyfranogol y defnyddiais, teimlaf y gallaf fod wedi defnyddio dulliau gwahanol o fewn gwersi gwahanol. Yn dilyn adnabod fy achos critigol, gall hynny wedi cynnig fy mod yn manylu ar 'Ddisgybl A' am gyfnod hirach o amser gan ddefnyddio dulliau mwy uniongyrchol e.e. craffu ar ei lyfrau, sgwrsio ag ef ac ati. Er hynny, credaf fod manteision y dull hwn yn gorbwyso'r anfanteision ac fy mod wedi cael trawsdoriad eang o weithgarwch y dosbarth hwnnw, o ran y disgyblion, athrawes a'r amgylchedd.

O ran gweithredu'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2018), teimlaf fod pob un o'r pump safon (Addysgeg, Cyd-weithredu, Arloesi, Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth) yn chwarae rôl bwysig o fewn addysgu cyfoes, a dylid anelu at weithredu pob un o'r pump os y nod yw hyrwyddo addysgu a dysgu effeithiol o fewn yr ystafell ddosbarth.

Ategaf hefyd y ffyrdd y gellid ymestyn a chyfoethogi dysgu disgyblion MATH trwy amrywiaeth o strategaethau effeithiol, megis mentora, tasgau gwahaniaethol sydd yn defnyddio sgiliau meddwl uwch (Bloom ac Olwyn TASC) a rhoi cyfrifoldeb ar gyfer creu tasgau iddynt. Wrth ystyried rheolaeth ddosbarth, rwyf am ategu'r nodweddion canolog a drafodwyd, sef arweinyddiaeth ddemocratig, perthnasau agos ac osgo'r corff ac amrywiad y llais. Rhaid imi ddyfynnu geiriau Driekurs (1982) eto i gloi fy nghasgliadau, sef "Combine kindness with firmness" sydd yn crisialu addysgu effeithiol yn fy marn i.

DIWEDD Y TRAETHAWD

8. Llyfryddiaeth

Llyfrau a Dogfennau:

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC). (2003). *Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad*. Caerdydd.

British Educational Research Association (BERA). (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research*. Llundain.

Clark, C. & Callow, R. (1998). *Educating Able Children: Resource Issues and Processes for Teachers*. Llundain: Fulton.

Cohen, L., Manion, L. & Morrison, K. (2011). *Research methods in education*. Llundain: Routledge.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. (ar-lein) Ar gael ar: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Mynediad ar 16 Hyd. 2019)

George, D. (1992). *The Challenge of the Able Child*. Llundain: Fulton.

Golygyddion Salem Press. (gol). (2014). *The processes of classroom management*. Massachusetts: Salem.

Jorgensen, D.L. (1989). *Participant Observation: A Methodology for Human Studies*. Llundain: Sage Publications.

Llywodraeth Cymru. (2015). *A curriculum for Wales – a curriculum for life*. (ar-lein). Ar gael: https://dera.ioe.ac.uk/24680/1/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-en_Redacted.pdf Caerdydd. (Mynediad ar Hyd 13. 2019)

Llywodraeth Cymru. (2018). *Cyflwyniad i'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*. (ar-lein). Ar gael: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/93/0e/42/c4/445a4e54a43f8b0847afa059/cyflwyniad-ir-safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-taflen.pdf> Caerdydd. (Mynediad ar Hyd 29. 2019)

Papatheodorou, T., Luff, P. & Gill, J. (2013). *Child observation for learning and research*. Efrog Newydd: Routledge.

Rodgers, B. (gol). (2002). *Teacher Leadership and Behaviour Management*. Llundain: PCP.

Tripp, D. (2012). *Critical incidents in teaching: developing professional judgement*. Llundain: Routledge.

Wragg, E.C. (1994). *An introduction to classroom observation*. Llundain: Routledge.

Gwefannau:

Encyclopedia.com - <https://www.encyclopedia.com/social-sciences/dictionaries-thesauruses-pictures-and-press-releases/non-participant-observation> (Mynediad ar 17 Hyd. 2019)

Fy Ysgol Leol - <http://mylocalschool.gov.wales/School/6694029?lang=cy> (Mynediad ar 19 Hyd. 2019)

Sociology Dictionary - https://sociologydictionary.org/hawthorne-effect/#definition_of_hawthorne_effect (Mynediad ar 17 Hyd. 2019)

9. Atodiadau

Atodiad 1.1. – Ffurflen Arsylwi 1 (Achos Critigol)

Dyddiad: 26.9.19
Manylion y wers: Dosbarth: 8 Gwyrdd (Band Uchaf) - 30 yn y dosbarth Pwnc: Hanes Thema: Harri'r 7fed - araith mynegi barn Hyd y wers: 1 awr Dim cynorthwydd dysgu'n bresennol yn y wers
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Trefn eistedd: Dosbarth wedi'i osod ar ffurf rhesi o ddesgiau - wedi cymryd amser i'r dosbarth setlo. Amgylchedd/Adnoddau: Gweithiau disgyblion llynedd ar yr un dasg wedi'u harddangos ar y wal - yr athrawes yn cyfeirio atynt trwy'r wers. Rheolaeth/Disgyblaeth: Disgyblion yn siaradus iawn, yn enwedig tra'r oedd yr athrawes yn esbonio'r dasg, felly llawer o angen i'r athrawes eu tawelu droeon yn ystod y wers. Roedd llawer o draethu'r athrawes yn dod o flaen y dosbarth. Cyflymder: Rhan fwyaf o'r wers wedi'i chymryd gan y dasg - disgyblion yn dechrau drafft cyntaf o'r araith mynegi barn. Rhai disgyblion yn gwneud mwy nag eraill yn y cyfnod a roddwyd iddynt.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Roedd yna bwrpas clir i'r wers. Roedd yr athrawes wedi neilltuo cyfran helaeth o'r wers i'r disgyblion ddrafftio'u gwaith. Roedd y cyflwyniad cychwynnol ar dechnegau araith wedi arwain yn glir at y dasg ac at nod y wers.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Roedd yr athrawes yn eglur iawn wrth drafod manylion y dasg - cyflwynwyd nod y wers yn glir ganddi gan ddefnyddio sleid Powerpoint. Cafwyd elfen llythrennedd gref wrth i'r athrawes drafod amryw o dechnegau perswadiol araith. Dosbarthwyd rhestr wirio i'r disgyblion i gyd er mwyn cynnwys yr elfennau yn eu hareithiau.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Roedd pob myfyriwr yn medru dilyn y wers. Ond gyda dosbarth o'r gallu uchel fel y dosbarth hwn, cwestiynaf a oedd pob myfyriwr wedi'u herio yn y wers. Ni osodwyd unrhyw dasg gwahaniaethu neu her ychwanegol ar gyfer y dasg.

Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Yn ystod y wers, profodd yr athrawes ymwybyddiaeth y disgyblion o ran technegau araith ac enghreifftiau ohonynt, ac roedd yr athrawes yn ymlwybro ac yn gwirio gwaith amryw ddisgyblion o ran eu drafftiau tua diwedd y wers.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Roedd yna un ddisgybl yn tarfu ar fwy nag un achlysur yn ystod y wers. Roedd yr un ddisgybl yn mynnu cyfathrebu gyda'r athrawes trwy gyfrwng y Saesneg, er mai gwers Hanes trwy'r Gymraeg oedd hon. Roedd y disgybl yn trafod pynciau oddi ar ffocws y wers a'r pwnc ei hun, roedd yn dangos ymwybyddiaeth o bynciau llosg cyfoes iawn - ystyriaf ei fod yn ddisgybl MAT yn ôl yr hyn yr oedd yn ei drafod e.e. materion gwleidyddol cyfoes.

Atodiad 1.2. – Ffurflen BWA 1

Achos Critigol

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26.9.2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Disgybl yn tarfu ar y wers – disgybl MATH?

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Mwynheais y wers Hanes hon. Roedd y dosbarth yn cyfrannu'n gyson, ac roedd yn amlwg bod yr athrawes a'r disgyblion yn gyfarwydd gyda'i gilydd hyd yn oed yn agos at ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd. Roeddent yn siaradus iawn, a theimlent yr oeddent ar rai adegau'n mynd dros ben llestri gyda'u siarad, a bu cyfran helaeth o'r cyfathrebu'n digwydd trwy gyfrwng y Saesneg, er mai gwers gyfrwng Cymraeg yr oedd hi. Roeddwn ychydig yn rhwystredig wrth glywed hynny gan ystyried mai'r set uchaf oedd hon.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	Bu'r disgybl yma'n tarfu ar rediad y wers ar nifer o achlysuron, ac yn mynnu cyfathrebu trwy gyfrwng y Saesneg hyd yn oed gyda'r athrawes. Cododd y disgybl gwestiynau nad oedd yn ymwneud â'r pwnc droeon, ac yr oedd yn araf iawn wrth gyflawni tasgau. Roedd hyn yn golygu bod angen i'r athrawes dalu mwy o sylw i'r disgybl yma a oedd yn effeithio ar gyfleoedd dysgu'r disgyblion eraill. Mae'r athrawes yn gyfarwydd gyda'r disgybl – defnyddiodd ei gwybodaeth o hoffter y disgybl o gyflwyno a gweithredu dadl i'w tynnu yn ôl at y dasg a osodwyd.

Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> <i>“Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?”</i> <i>“What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?”</i>	Teimlaf fod yr athrawes wedi delio gyda’r disgybl yn dda iawn trwy ddefnyddio elfen a oedd o ddiddordeb i’r disgybl er mwyn ei annog i orffen y dasg. Roedd cynnwys y wers yn effeithiol yn fy marn i, gyda nod ac amcanion clir wedi’u arddangos i’r disgyblion.
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>“Beth yw eich atebion posibl i’r mater a nodwyd?”</i> <i>“Beth y gellid ei wneud nesaf?”</i> <i>“What are your possible solutions to the issue identified?”</i> <i>“What could be done next?”</i>	O ran cynnal diddordeb y disgybl yn y dyfodol, mae Clark & Callow (1998: 96) yn trafod yr effaith gadarnhaol pan mae disgyblion yn cael y cyfle i greu a gweithredu eu tasgau eu hunain. Mae hyn yn medru bod yn effeithiol iawn wrth ystyried disgyblion MATH yn arbennig. Byddaf hefyd yn cefnogi’r syniad o fentora, naill ai oddi wrth fyfyrwr hŷn neu oedolyn yn y gymuned sydd yn rhannu’r un ddiddordebau er mwyn ymestyn addysgu’r disgybl.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

Atodiad 2.1. – Ffurflen Arsylwi 2

Dyddiad: 26.9.19
Manylion y wers: Dosbarth: 8 Gwyrdd (Band Uchaf) - 30 yn y dosbarth (6 yn hwyr i’r wers) Pwnc: Cerddoriaeth Thema: Gwrando/Theori Cerdd - ‘Three Little Birds’, Bob Marley Hyd y wers: 1 awr Dim cynorthwydd dysgu’n bresennol yn y wers.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy’r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Trefn eistedd: Dim trefn eistedd penodol ar gyfer y disgyblion. 3 bwrdd wedi’u gosod yng nghanol y dosbarth, y disgyblion eraill yn eistedd wrth ddesgiau ar yr ochrau ac yn y cefn ger yr allweddellau. Amgylchedd/Adnoddau: Roedd yr athrawes yn gwneud defnydd effeithiol o’r terminoleg cerddorol arbenigol a oedd wedi’u gosod ar wal gefn y ddosbarth wrth drafod a dadansoddi’r gân a astudiwyd gan y dosbarth yn y wers. Yr athrawes yn gwneud defnydd effeithiol o’r piano ym mlaen y dosbarth. Rheolaeth/Disgyblaeth: Roedd hyn yn ddosbarth siaradus iawn gyda angen cyson i’w tawelu, ond roedd yr athrawes yn gyson iawn ac wedi cadw rheolaeth dda ar y dosbarth. Roedd rhai disgyblion yn tarfu trwy chwarae’r allweddellau pan oedd yr athrawes yn traethu. Cyflymder: Roedd yr athrawes yn eglur iawn ac yn symud y wers ymlaen ar gyflymder addas i’r disgyblion.

Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Roedd yna bwrpas clir, sef gwrandio ar gân <i>reggae</i> ac yna'i dadansoddi ar lefel dosbarth. Chwaraewyd dwy fersiwn o'r gân, sef y gwreiddiol ac yna fersiwn acwstig, ar fwy nag un achlysur er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'r disgyblion fedru eu dadansoddi.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Esboniodd yr athrawes yr hyn a oedd angen i'w wneud ar gyfer y dasg trwy fynd trwy'r cwestiynau o flaen llaw cyn chwarae'r fersiynau o'r gân. Amlinellwyd i'r disgyblion yr hyn a oedd angen iddyn nhw dalu sylw amdanynt wrth wrando i'r gân - trafodwyd nodweddion elfennol cerddoriaeth <i>reggae</i> ymlaen llaw hefyd.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Roedd pob myfyriwr yn medru dilyn y wers - rhoddwyd digon o amser a chyfle i'r disgyblion orffen y dasg. Heriwyd y disgyblion i sicrhau eu bônt yn defnyddio'r terminoleg arbenigol wrth drafod a dadansoddi'r caneuon.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Ceir un brif asesiad yn y wers - ateb cyfres o gwestiynau ar nodweddion y gân. Wedi cwblhau'r dasg, roedd y disgyblion yn asesu eu cyfoedion wrth i'r athrawes gynnal trafodaeth ar lefel y dosbarth gan wahodd y disgyblion i gynnig eu hatebion.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Roedd yna grŵp o ddisgyblion yng nghefn y dosbarth nad oedd yn ymwneud llawer gyda'r wers - a all yr athrawes wedi'u cynnwys yn fwy wrth eu cwestiynu? Roedd 6 disgybl yn hwyr iawn i'r wers - roedd yr athrawes wedi delio gyda hyn y tu allan i'r dosbarth, yn hytrach nag o flaen y disgyblion eraill.

Atodiad 2.2. – Ffurflen BWA 2

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 26.9.2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Grŵp o ddisgyblion yng nghefn y dosbarth nad oedd yn ymwneud llawer gyda'r wers

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Mwynheais y wers yn fawr, a theimlais fod y wers yn un effeithiol ac addysgedig gyda digon o gyfleoedd i'r disgyblion feddwl, gwranddo, trafod ac ymateb. Roedd yr athrawes yn eglur wrth gyfathrebu ac wedi esbonio'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig o'r disgyblion wrth gyflawni'r brif dasg.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	Eisteddodd grŵp o fechgyn yng nghefn y dosbarth, ac wrth eu harsylwi nodais nad oeddent yn cyfrannu at y wers mewn unrhyw ffordd – pan ofynnwyd cwestiwn gan yr athrawes, nid oeddent yn codi llaw neu'n mentro unrhyw ateb. Roeddent trwy'r wers yn mân-siarad heb dalu llawer o sylw i'r hyn a oedd yn digwydd yn y wers.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	Roedd yr athrawes yn gwneud defnydd da o adnoddau'r ystafell ddosbarth, ac yn rhoi digon o amser i'r disgyblion feddwl ac ymateb. Teimlaf y gall yr athrawes fod wedi amrywio'r modd yr oedd hi'n cwestiynu gan symud i ffwrdd oddi wrth y dull 'dwylo i fyny'. Nid oedd y bechgyn dan sylw'n ymateb i'r dull hwnnw, a fyddai dull mwy uniongyrchol wedi bod yn fwy o fudd ar gyfer cynnwys y disgyblion hynny.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	Er mwyn camu ymlaen a cheisio mynd i'r afael gyda hyn, byddwn yn mynd ati i lunio strategaethau a fydd yn goresgyn hyn pan fyddaf yn mynd ati i gynllunio. Un beth y gallaf ystyried yw symud y disgyblion hynny i flaen y dosbarth er mwyn canfod os yw'r trefn eistedd yn ddifffgiol neu'n amharu ar eu dysgu, nes os mai diffyg diddordeb yn y pwnc yw'r rheswm dros y diffyg ymwneud. Os mai diffyg diddordeb yw'r rheswm, rhaid cynllunio'n effeithiol er mwyn ennyn diddordeb mewn modd sydd yn apelio atynt.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 3.1 – Ffurflen Arsyliw 3

Dyddiad: 26.9.19
Manylion y wers: Dosbarth: 9 Gwyrdd (Band Uchaf) - 29 yn y dosbarth Pwnc: Addysg Grefyddol Thema: A yw credoau o bwys? Hyd y wers: 1 awr Dim cynorthwyydd dysgu'n bresennol yn y wers.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Trefn eistedd: Y dosbarth wedi'i osod mewn cyfres o resi. Roedd yna drefn eistedd penodol, ond roedd rhai disgyblion wedi ceisio torri'r drefn honno.

Amgylchedd/Adnoddau: Defnyddiwyd 'trailer' y ffilm *Hacksaw Ridge* wrth drafod heddychiaeth - roedd hyn yn ffres ac wedi esgor ar drafodaeth eang ynghylch y gred.

Rheolaeth/Disgyblaeth: Roedd yna awyrgylch hamddenol i'r wers gyda disgyblion yn man-sgyrsio wrth gyflawni'r tasgau gosod. Roedd yr athrawes yn cadw rheolaeth dda ar y cyfan.

Cyflymder: Roedd y wers yn symud yn ei blaen yn ddigon cyflym. Defnyddiwyd amserydd ar-lein wrth gyflawni tasgau - roedd hyn yn effeithiol wrth reoli amser yn y wers.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Roedd y dasg hon yn arwain at eu tasg estynedig nesaf, sef llunio poster yn amlinellu credoau crefyddau gwahanol. Nod y wers oedd trafod 'heddychiaeth', ac roedd y tasgau'n glynu wrth y nod yma trwy'r wers. (Gweler fanylion am y tasgau yn yr adran 'Asesu'.)

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Roedd yna ychydig o ddryswch ynghylch y dasg ddarllen a deall. (Gweler 'Mynediad a her'.) Nid oedd y dasg wedi'i hegluro'n ddigon trylwyr yn fy marn i, na'r disgwyliadau ynghylch atebion y disgyblion wedi'u nodi gan yr athrawes.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Roedd y wers yn eglur ar y cyfan - ar gyfer un o gwestiynau'r dasg ddarllen a deall, roedd yna nifer o ddisgyblion yn gofyn sut oedd mynd ati i'w hateb. A oedd angen bach mwy o esboniad arnynt?

Roedd rhai disgyblion a oedd wedi gorffen tasg darllen a deall a osodwyd yn eistedd yn segur wrth i weddill y disgyblion ei gorffen - a oedd angen tasg ychwanegol arny'n nhw?

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Roedd y disgyblion yn medru dwyn i gof themâu blaenorol a astudiwyd gennyf pan ofynnwyd iddynt gan yr athrawes. Gosodwyd tasg darllen a deall yn ystod y wers, ond cyn hynny gofynnwyd i'r disgyblion ysgrifennu eu diffiniad eu hun o 'beth yw credoau' ar fwrdd gwyn bach cyn adrodd eu hatebion yn ôl ar lefel dosbarth. Fel tasg i gloi, driliodd yr athrawes eirfa allweddol gan ofyn i ddisgyblion ddewis pwy oedd yn ateb ar eu holau.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Roedd yr un ddisgybl yn gwirfoddoli i ddosbarthu adnoddau ac yna'u casglu ar ddiwedd y wers.

Defnyddiwyd dull 'dwylo i fyny' gan yr athrawes, ond yr un rai oedd yn codi llaw i ateb cwestiynau - a oedd modd defnyddio dull cwestiynu arall er mwyn cael mwy i gyfrannu?

Atodiad 3.2. – Ffurflen BWA 3

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26.9.2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Diffyg yn y dull 'dwylo i fyny'?

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Roedd y wers ar y cyfan yn un ddiddorol iawn. Defnyddiwyd nifer o dechnegau addysgu da gan yr athrawes, ac ar y cyfan roedd ymddygiad y disgyblion yn dda. Teimlais fod y profiad cwestiynu'n ailadroddus ar y cyfan ac yn agoriad llygaid imi ynghylch pwysigrwydd cwestiynu effeithiol.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	Wrth gwestiynu, defnyddiodd yr athrawes ddull 'dwylo i fyny' sef y dull mwyaf boblogaidd wrth gwestiynu, ond sylwais mai'r un ddisgyblion oedd yn codi eu dwylo er mwyn ateb y cwestiynau. Parhaodd hyn trwy'r wers gyfan. Yn ychwanegol, roedd yr un ddisgybl yn codi ei llaw i ddosbarthu adnoddau pan ofynnwyd gan yr athrawes.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	Fel y nodais yn y ffurflen arsylwi ar gyfer y wers hon uchod, roedd yna ddefnydd effeithiol o adnoddau gan yr athrawes wrth reoli amser a throsglwyddo gwybodaeth. Ond, codaf y cwestiwn: a all yr athrawes fod wedi amrywio'i chwestiynu gan gynnwys nifer fwy o ddisgyblion na'r dynnid a atebodd yn ystod y wers?
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	Un strategaeth bosib i fynd i'r afael gyda hyn fydd addasu'r modd y mae'r athrawes yn cwestiynu yn ystod y wers. Gellir defnyddio olwyn enwau ar-lein os oes modd, neu bod yr athrawes yn fwy uniongyrchol gyda phwy y mae hi eisiau ateb ei chwestiynau gan gynnwys mwy o ddisgyblion.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 4.1. – Ffurflen Arsylwi 4

Dyddiad: 25.9.19
Manylion y wers: Dosbarth: 8 Set 1 - 24 yn y dosbarth Pwnc: Cymraeg Thema: Ymson Anifail Hyd y wers: 1 awr Dim cynorthwydd dysgu'n bresennol yn y wers.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Trefn eistedd: Trefn penodol mewn rhesi o ddesgiau - trefn bachgen/merch gyda gallu amrywiol. Amgylchedd/Adnoddau: Roedd yr athrawes yn gwneud defnydd effeithiol o'r wal nodweddion arddull gan gyfeirio'r disgyblion ati yn ystod y tasgau creadigol. Disgyblaeth/Rheolaeth: Roedd disgyblaeth a rheolaeth da o'r cychwyn cyntaf - roedd yn amlwg bod yr athrawes a'r plant yn gyfarwydd gyda'i gilydd. Cyflymder: Roedd yna gyflymder cyson i'r wers ac i'r tasgau - roedd angen ychydig o ail-egluro ar ambell agwedd. Defnyddiwyd amser ydd ar-lein i gadw strwythur i'r wers.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Roedd yna bwrpas clir i'r wers, a fframiodd yr athrawes ei thasgau'n effeithiol wrth adeiladu at y brif dasg - llunio ymson anifail sydd yn cael ei gam-drin. Gosodwyd tasg a oedd yn ymwneud â defnyddio'r synhwyrâu wrth lunio ymson. Yna rhoddwyd lluniau o anifeiliaid amrywiol a oedd yn cael eu cam-drin i barau o ddisgyblion, a'u tasg hwy oedd trafod y lluniau gan gynnig persbectif o'u gorffennol, presennol a'u dyfodol. Rhoddwyd pwyslais mawr ar y disgyblion i ddefnyddio empathi a'u dychymyg wrth drafod. Adroddwyd yn ôl ar lefel ddosbarth cyn gorffen y wers.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Roedd yr athrawes yn modelu ac yn eglur iawn wrth esbonio'r tasgau gosod. Rhannwyd meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg estynedig. Fel y crybwyllais o dan y pennawd 'Amgylchedd/Adnoddau', roedd yr athrawes yn gwneud defnydd effeithiol o'r wal nodweddion arddull ym mlaen y dosbarth, ac yr oedd hi'n ei defnyddio'n gyson wrth gyfeirio at y meini prawf llwyddiant.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Roedd yr athrawes yn eglur iawn wrth esbonio'r tasgau a'r hyn oedd yn ddisgwyliedig, ac felly roedd pawb yn medru dilyn. Roedd hon yn wers greadigol, ond roedd yna heriau wrth i'r disgyblion gyflawni'r tasgau. Fe'u heriwyd i gynnwys mwy o ddelweddau a nodweddion arddull yn eu gwaith.
Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Gwelir mwy o fanylion am y tasgau gosod yn yr adran 'Amcanion'. Ond o ran sut oedd yr athrawes yn asesu dealltwriaeth y disgyblion, roedd yna gyfleoedd cyson i'r disgyblion rannu eu syniadau a derbyn adborth gan yr athrawes a chyd-disgyblion yn ystod y wers. Roedd yr athrawes yn sicrhau ei bod yn gwirio bod y disgyblion yn deall yr hyn a eglurwyd cyn symud ymlaen gyda'r wers.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Roedd yna ddisgybl a oedd yn parhau i gwestiynu ymhell oddi ar bwnc y wers - dangosodd yr athrawes ddiddordeb mewn rhai cwestiynau, ond wedi hynny nid oedd hi'n ymateb i gwestiynau'r disgybl. Er y cwestiynu amhriodol, roedd y disgybl yn cyflawni'r tasgau gosod mewn da bryd.

Soniodd yr athrawes wedi'r wers fod yna elfen o gystadlu rhwng amryw ddisgyblion wrth gyflawni tasgau - y disgyblion yn gwrthio'u hun i wneud yn well i ryw raddau neu'r syniad o oruwchafiaeth?

Atodiad 4.2. – Ffurflen BWA 4

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 25.9.2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Disgyblion yn cystadlu ar gyfer goruwchafiaeth

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Mwynheais y wers hon yn fawr. Gwers greadigol ydoedd, ac roedd y plant yn ymateb yn dda trwy'r wers. Gwelais lawer o'r un ddwylo'n codi i'r awyr pan ofynnwyd cwestiwn gan yr athrawes, ac roedd hynny wedi peri ychydig o feddwl ynghylch problemau hyder rhai unigolion o fewn y dosbarth.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	Wedi edrych yn ôl ar y nodiadau a wnaed gennyf yn ystod y wers, ac wrth gofio yn ôl, roedd yna gryn gystadlu rhwng rhai ddisgyblion, yn enwedig ymhlith y bechgyn yn y dosbarth.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse	Mae cystadleuaeth yn naturiol ar gyfer sefyllfa fel hyn gyda disgyblion o allu medrus yn ceisio gwneud yn well na'i gilydd, ond mae yna linell lle ni ddylai fynd yn

<i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	rhy bell. Dylid sicrhau bod y 'cystadlu' yn digwydd mewn modd gadarnhaol ac nid yw'n cael sylw pendant, nid yw'n bersonol nac yn effeithio'n negyddol ar emosiynau disgyblion eraill. Canmolaf yr athrawes am beidio â thynnu sylw tuag at hyn o gwbl yn ystod y wers.
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	Byddaf yn ymbil ar yr athrawes i barhau i fod yn ymwybodol ac yn wyliadwrus o'r 'cystadlu'. Byddwn yn ei hannog i annog pob disgybl i ymateb a pherfformio'r gorau ag y gallent er mwyn ffocysu ar y dosbarth yn ei gyfanrwydd. Gellir arsylwi eto wedi cyfnod o amser er mwyn nodi os yw'r cystadlu'n dal i fodoli, ac ymchwilio i'r cysyniad o hierarchaeth o fewn dosbarth. Gellir hefyd craffu a chadw golwg ar farciau/perfformiad yr unigolion i weld os ydynt yn gwrthio'i gilydd i wella a gwneud cynnydd.
Y profiad newydd / Transformed experience	